


# *Sisters of Sword and Shadow*
# gan Laura Bates

## ADNODDAU DYSGU







# GWERS 1

## Rhywiaeth a Chydraddoldeb Rhywiol

### GWYLIWCH

48 Things Women Hear In A Lifetime (That Men Just Don't)

https://www.youtube.com/watch?v=9yMFw_vWboE&ab_channel=HuffPost

### TRAFODWCH

- Beth yw rhywiaeth?
- Ydych chi neu rywun rydych chi'n adnabod erioed wedi profi rhywiaeth? Beth ddigwyddodd, a sut y gwnaeth i chi deimlo?

### TASG

Ewch i wefan 'Everyday Sexism Project' (https://everydaysexism.com). Pwrpas y prosiect ydy catalogio achosion o rywiaeth a brofir ar sail dydd i ddydd. Darllenwch rai o'r cofnodion sydd wedi cael eu rhoi ar y wefan.

Trafodwch y cwestiynau hyn, mewn parau:

- O ran cydraddoldeb rhywiol, ym mha ffyrdd y gallai bywyd can mlynedd yn ôl fod yn wahanol i fywyd yn y presennol? Ydych chi'n credu bod menywod yn y cyfnod hwn yn wynebu rhywiaeth ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau?
- Nawr, dychmygwch gael eich cludo gan mlynedd i'r dyfodol, i fyd lle dydy anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a rhywiaeth ddim yn bodoli mwyach. Sut y gallai bywyd yn y dyfodol fod yn wahanol o'i gymharu â nawr?

*What did it matter if they dressed up and played pretend with their swords and horses, if the moment she slipped back into a pretty dress a man could treat her as his plaything, shake her like a rag and toss her away?*

*Sisters of Sword and Shadow*, t.237–8

**DARLLENWCH** t.194–6 o 'The man grunted…' i '…if he had been like these brutes, or worse?' a t.235–8 o 'He moved closer…' i 'For so long.'

### TASG

Term allweddol:

- **Casineb o fenywod**: casáu, dirmygu neu ragfarn yn erbyn menywod.

Eich i wefan Womankind Worldwide (www.womankind.org.uk/misogyny-runs-deep-how-to-stand-up-to-sexist-language) a darllenwch drwy'r cyngor sydd yn cael ei roi ar sut i sefyll fyny yn erbyn iaith rywiol.

Ail-ysgrifennwch olygfa o'r llyfr lle mae Cass yn defnyddio rhywfaint o'r cyngor hwn i sefyll i fyny i'r rhywiaeth a'r casineb o fenywod mae hi'n ei brofi wrth law cymeriadau gwrywaidd.



# GWERS 2

# Newid y Naratif

## MEDDYLIAU AGORIADOL

- Sut mae disgwyl i fenywod edrych ac ymddwyn? Sut mae disgwyl i ddynion edrych ac ymddwyn? Gwnewch restr ar gyfer pob un.
- Wrth edrych ar eich rhestrau, beth ydych chi'n sylwi ynghylch y gwahaniaethau rhwng disgwyliadau dynion a menywod?

*'What difference is there between our fellowships, if you forget what you have been told about who in our world has the power to make decisions and announce decrees?'*

*Cass felt dizzy. None of it made any sense. There were rules, and traditions and things had been this way for centuries. And yet… – Sisters of Sword and Shadow*, t.39

## GWYLIWCH

Girls toys vs boy toys: The Experiment – BBC Stories

https://www.youtube.com/watch?v=nWu44AqF0iI&ab_channel=BBCStories

Beth mae'r fideo hwn yn ei ddatgelu am ein syniadau isymwybod am ddiddordebau traddodiadol dynion a menywod?

*The clash of swords rang out as small groups of young women met in noisy combat. Cass gasped as one of them rolled backwards across her toes before leaping back to her feet with a triumphant shout, catching up her shield and re-entering the fray.*

*Sisters of Sword and Shadow*, t.33

**DARLLENWCH** t.32–34 o 'Girls in short tunics and hose…' i '…inside the stronghold of the Sisters of Sword and Shadow.'

## TASG

Termau allweddol:

- **Cyfosodiad**: y ffaith bod dau beth yn cael eu gweld neu eu gosod yn agos at ei gilydd gydag effaith gyferbyniol.
- **Gwyrdroi**: tanseilio pŵer ac awdurdod system neu sefydliad sefydledig.

Uwcholeuwch unrhyw ferfau/ansoddeiriau/adferfau y byddech chi'n eu cysylltu â gwrywdod mewn un lliw, ac unrhyw beth y byddech chi'n ei gysylltu â benyweidd-dra mewn lliw arall.

**TRAFODWCH** Sut mae Bates yn defnyddio **cyfosodiad** yn yr adran hon o'r llyfr i **wyrdroi** rolau rhywedd traddodiadol?

## TASG

1. Darllenwch yr erthygl papur newydd hon ynghylch y rhwystrau sy'n wynebu rhai gwleidyddion benywaidd. https://www.theguardian.com/commentisfree/2019/may/07/barriers-female-politcians-women-beto-orourke
2. Crëwch stori bapur newydd, lle rydych chi'n 'troi'r sgript' ac yn edrych ar ba mor hurt y byddai'n ymddangos pe byddem yn trin gwleidyddion gwrywaidd yn yr un ffordd yr ydym yn trin rhai benywaidd.



# GWERS 3
# Teulu a Theimlad o Ymberthyn: teulu Coll a Dewisol

## MEDDYLIAU AGORIADOL

Gwnewch restr o unrhyw lyfrau/ffilmiau/teledu/gemau lle mae'r prif gymeriadau'n dod o hyd i deimlad o ymberthyn gyda theulu sydd ddim yn perthyn iddyn nhw. Dewiswch un o'ch rhestr ac atebwch y cwestiynau canlynol:

- Oes gan y cymeriad unrhyw aelodau o'r teulu sy'n perthyn trwy waed, a sut mae eu perthynas â nhw?
- Beth ydy'r amgylchiadau sy'n arwain y cymeriad i'w grŵp teulu newydd?
- Sut mae'r cymeriad a'u bywyd yn newid ar ôl dod yn rhan o'r grŵp hwn?

*'You did not come home.' There was resentment and anger in her sister's voice, but above all there was such hurt that hot needles sprang to Cass's eyes. 'You were not prevented, and yet you chose not to… – Sisters of Sword and Shadow*, t.299

DARLLENWCH t.297–300 o 'The door creaked open…' i 'like water bursting through a dam.'

## TASG

Yn yr adran hon o'r llyfr, mae Cass yn sylweddoli pa mor ypsét oedd Mary oherwydd bod Cass wedi diflannu, ac oherwydd y diffyg cyfathrebu. Pa resymau sydd gan Cass am beidio cysylltu â Mary neu ei rhieni i roi gwybod iddyn nhw ei bod hi'n ddiogel? Rhestrwch nhw.

Yn eich barn chi, a wnaeth Cass wneud y peth iawn trwy adael ei theulu yn gyfan gwbl ar ôl? Ysgrifennwch baragraff perswadiol lle rydych chi'n dadlau eich safbwynt. Dylech ddefnyddio tystiolaeth o'r testun i gefnogi eich syniadau. Darllenwch eich paragraff i bartner. Ydyn nhw'n anghytuno neu'n cytuno â'ch barn? Allwch chi eu perswadio i ystyried eich safbwynt?

*Indeed, she was coming to feel that Lily was almost as much of a sister to her as Mary: more so, in many ways. When she thought about the choice she had made to ride away from the possibility of a loveless, unchosen match, and contrasted the shadow future with the close, loving kinship she had found here, with Lily and the others, she knew with absolute certainty that she had made the right choice… – Sisters of Sword and Shadow*, t.171

DARLLENWCH t.196–199 o 'Settle an argument for us' i '…smiling as I walk away with their plates'.

TRAFODWCH Mae'r term '**teulu dewisol**'yn cyfeirio at ymadrodd mewn llenyddiaeth lle dewisodd grŵp o bobl garu a chefnogi ei gilydd yn fwriadol, waeth beth fo'u priodas neu berthynas waed. Beth allai fod yn rhai o'r manteision o gael 'teulu dewisol'?

Yn *Sisters of Sword and Shadow*, sy'n 'deulu dewisol' Cass, ym mha ffyrdd mae hi'n teimlo ymdeimlad o berthyn a diogelwch ymhlith y grŵp hwn?

## TASG

Dychmygwch mai Cass ydych chi a'ch bod chi newydd ddod o hyd i Sisters of Sword and Shadow. **Naill ai:**

- Ysgrifennwch lythyr at Mary yn esbonio pam y gwnaethoch chi adael cartref. Ystyriwch syniadau am rywiaeth ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Sut y gallai eich bywyd fod yn wahanol petasech chi heb fod wedi ymuno â Sigrid y diwrnod hwnnw yn y goedwig? **neu:**
- Ysgrifennwch gofnod dyddiadur lle rydych chi'n disgrifio eich teimladau am fywyd yn y chwaeroliaeth. Beth yw'r pethau cadarnhaol a negyddol? Ym mha ffyrdd ydych chi wedi profi teimladau o ryddid a grym?